Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Ddydd Iau, 18 Rhagfyr 2008**

Teitl: Rhyddhau canlyniadau ymchwil Cymru

Mae prifysgolion yng Nghymru yn parhau i wneud gwaith ymchwil o safon fyd-eang yn ôl canlyniadau Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) 2008 a gyhoeddwyd heddiw.

Mae'r ymarfer, sy'n asesu ansawdd yr ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch drwy'r DU, yn dangos bod Cymru'n parhau i chwarae rhan egnïol ar lwyfan ymchwil y DU.

Gwelwyd perfformiadau cryf mewn ystod o bynciau'n amrywio o gelf a dylunio i ffiseg, a sicrhawyd canlyniadau o safon fyd-eang mewn nifer o feysydd gan gynnwys peirianneg sifil, cyfrifiadureg a hysbyseg, seiciatreg a niwrowyddoniaeth, seicoleg ac astudiaethau Celtaidd.

Barnwyd bod 14% o'r holl weithgaredd ymchwil a gyflwynwyd gan sefydliadau Cymru yn 'arwain y byd', a bod 35% arall yn 'rhagorol ar raddfa ryngwladol'.

Meddai Roger Thomas, Cadeirydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru: "Rydym yn falch iawn o weld perfformiad ymchwil cryf gan brifysgolion Cymru mewn cymaint o feysydd. Yr her bellach yw defnyddio'r cryfderau hyn i roi hwb i economi gwybodaeth Cymru a chreu cyfoeth a swyddi, sy'n arbennig o bwysig o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol.'

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Dylem ddathlu'r ymchwil penigamp sy'n cael ei wneud mewn addysg uwch yng Nghymru, a'r cyfraniad mae'n ei wneud at enw da Cymru yn y byd.

"Serch hynny, rydym ni'n cydnabod bod ymchwil yn dal yn broses hynod o gystadleuol. Byddwn ni'n parhau i weithio i gryfhau'r sylfaen ymchwil yng Nghymru. Mae cynnal ein safle uchel yn wyneb cystadleuaeth o wledydd eraill y DU a gwledydd tramor yn parhau'n her fawr i ni yn CCAUC ac i'r rheiny yn ein prifysgolion sydd â'r dasg o godi ein huchelgeisiau ymchwil yn barhaus."

Gwnaeth 11 o sefydliadau yng Nghymru gyfanswm o 144 o gyflwyniadau i'r ymarfer, a oedd yn cwmpasu 2,578 o aelodau staff – dros 10% yn fwy nag ar gyfer yr ymarfer diwethaf yn 2001.

Diwedd

Nodiadau i Olygyddion

I gael rhagor o wybodaeth, cysyllter â:
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebiadau, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY)

1 Bydd canlyniadau YAY 2008 ar gael ar wefan yr YAY ar 18 Rhagfyr – www.rae.ac.uk. Hefyd gall y cyfryngau gasglu'r canlyniadau, ar ffurf copi papur neu electronig, o swyddfeydd CCAUC o 12 canol dydd ar 17 Rhagfyr, gyda gwaharddiad ar eu rhyddhau hyd 00.01 ar 18 Rhagfyr.

2 Prif bwrpas yr YAY yw cynhyrchu asesiadau o ansawdd ymchwil a ddefnyddir gan gyrff cyllido addysg uwch y DU i benderfynu ar y prif grant ar

gyfer ymchwil a roddir i'w sefydliadau. YAY 2008 oedd y chweched mewn cyfres o ymarferion o'r fath; cynhaliwyd yr un diwethaf yn 2001.

3 Cynhaliwyd YAY 2008 ar y cyd gan bedwar corff cyllido addysg uwch y DU – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Cyngor Cyllido'r Alban ac Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon.

4 Gwahoddwyd sefydliadau addysg uwch i gyflwyno eu hymchwil i'w asesu. Gwnaed y cyflwyniadau yn ôl maes pwnc, ac fe'u haseswyd drwy adolygiad arbenigol gan is-baneli pwnc. Roedd 67 is-banel yn YAY 2008.

5 Ar draws y DU, gwnaeth 159 o sefydliadau addysg uwch 2,344 o gyflwyniadau i YAY 2008, gan restru gwaith dros 50,000 o ymchwilwyr.

6 Caiff canlyniadau YAY 2008 eu mynegi fel proffil ansawdd ar gyfer pob cyflwyniad. Mae'r proffiliau ansawdd yn cyflwyno, mewn blociau o 5%, gyfran y cyflwyniad y bernir ei bod yn cyrraedd pob un o bedair lefel ansawdd yn amrywio o 4* (arwain y byd) i 1* (cydnabyddir yn genedlaethol). Dyma'r prif wahaniaeth rhwng yr ymarfer hwn ac YAY 2001, pryd y rhoddwyd un radd i bob cyflwyniad ar raddfa o 1 i 5*. Drwy gyflwyno proffiliau ansawdd yn 2008 roedd y paneli'n gallu mynegi barn fwy manwl.

7 Y diffiniadau llawn o'r lefelau ansawdd yw:

Pedair seren Ansawdd sy'n arwain y byd o ran gwreiddioldeb, pwysigrwydd a manylrwydd.

Tair seren Ansawdd sy'n rhagorol ar raddfa ryngwladol o ran gwreiddioldeb, pwysigrwydd a manylrwydd, ond nad yw serch hynny'n cwrdd â'r safonau rhagoriaeth uchaf.

Dwy seren	Ansawdd a gydnabyddir yn rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, pwysigrwydd a manylrwydd.
Un seren	Ansawdd a gydnabyddir yn genedlaethol o ran gwreiddioldeb, pwysigrwydd a manylrwydd.
Heb ei ddosbarthu	Ansawdd sy'n is na'r safonau a gydnabyddir yn genedlaethol. Neu waith nad yw'n bodloni'r diffiniad cyhoeddedig o ymchwil at ddibenion yr asesiad hwn.

8 Gwelwyd perfformiadau cryf gan sefydliadau Cymreig mewn ystod o bynciau'n amrywio o gelf a dylunio i ffiseg, a sicrhawyd canlyniadau o safon fyd-eang mewn nifer o feysydd gan gynnwys peirianneg sifil, peirianneg drydanol ac electronig, cyfrifiadureg a hysbyseg, seiciatreg a niwrowyddoniaeth, seicoleg, proffesiynau iechyd cysylltiedig, busnes a rheolaeth, gwleidyddiaeth ac astudiaethau rhyngwladol, cynllunio gwlad a thref ac astudiaethau Celtaidd.

9 Gwnaeth 10 sefydliad addysg uwch yng Nghymru, ynghyd â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, gyfanswm o 144 o gyflwyniadau i'r ymarfer, a oedd yn cwmpasu 2,578 o aelodau staff – dros 10% yn fwy nag ar gyfer yr ymarfer diwethaf yn 2001.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.